

Croeso i 3ydd Gŵyl Bwyd Da yr Hydref Caerdydd!

Mae'r Wyl yn rhaglen o ddigwyddiadau bwyd ledled y ddinas i ddathlu'r mudiad bwyd da drwy gysylltu drwy fwyd. Drwy gymryd rhan, byddwch yn adeiladu ar lwyddiant y ddwy Wyl yr Hydref ddiwethaf lle trefnodd grwpiau cymunedol, gerddi, busnesau lleol ac ysgolion 68 o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan ddenu dros 5,000 o fynychwyr, dosbarthu mwy na 5,000 o blanhigion llysiau a rhannu 100oedd o brydau bwyd.

Cynnig grant

Mae Bwyd Caerdydd yn cynnig grantiau bach o £50 i £150 i alluogi grwpiau nid-er-elw i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn rhan o'r wyl. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer costau gweithgareddau (er enghraifft, hadau, trafndiaeth, technoleg, bwyd ac ati), cyfarpar (er enghraifft, hob coginio, oergelloedd, offer garddio cadarn, gorsafoedd compost ac ati), costau staff, neu gyfuniad o'r tri.

Rydym yn gwahodd ceisiadau ar gyfer digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r 5 Nod Bwyd Da (gweler isod) ac sy'n cael eu cynnal yn ardal Awdurdod Lleol Caerdydd rhwng 10.9.22 – 16.10.22

Darllenwch y 5 Nod Bwyd Da: <https://foodcardiff.com/cy/our-5-food-goals/>

Llinell amser

- 12 Gorffennaf - Ceisiadau ar agor
- 21 Gorffennaf - 5-6pm - Sesiwn holi ac ateb ar gyfer darpar ymgeiswyr
- 25th Gorffennaf - 12-1pm - Sesiwn holi ac ateb ar gyfer darpar ymgeiswy
- 10th Awst - Ceisiadau'n cau

Byddwn ond yn ariannu:

- Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd sy'n ennyn diddordeb pobl mewn tyfu, prynu, coginio, bwyta a rhannu bwyd da; yn unol â'r 5 Nod Bwyd Da.
- Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd i'w cynnal yng Nghaerdydd rhwng 10.9.22 a 16.10.22, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Os yw digwyddiadau'n rhithiol, mae'n rhaid iddynt dargedu trigolion Caerdydd yn benodol.
- Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd nad ydynt eisoes yn cael eu hariannu, oni bai eu bod yn rhoi buddion ychwanegol e.e. cynyddu'r nifer sy'n bresennol

- Mae'r grant ar agor i grwpiau a lleoliadau dielw gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: grwpiau cymunedol lleol, meithrinfeydd, ysgolion, cartrefi gofal, lleoliadau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol, cymdeithasau tai ac elusennau. Rhaid i grwpiau cymunedol gael cyfrif banc yn enw'r grŵp

Os nad ydych yn bodloni meini prawf y categori hwn ond yr hoffech gymryd rhan yng Ngŵyl yr Hydref (e.e. cymdogaeth sydd eisiau cynnal parti stryd), cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk

Rydym hefyd yn chwilio am:

- Gweithgaredd sy'n dod â phobl, cartrefi, strydoedd, cymdogaethau a chymunedau ynghyd drwy fwyd
- Gweithgaredd bwyd sy'n cael ei greu ar y cyd â'r bobl a'r cymunedau a fydd yn elwa ohono
- Digwyddiadau/gweithgareddau sydd o fudd i ystod amrywiol o gymunedau ledled Caerdydd

Sut i Wneud Cais:

Llenwch y cais ar-lein o'r fan hon: <https://forms.office.com/r/JHFgjKBxFk>

Gallwch weld y cwestiynau cyn llenwi'r ffurflen drwy glicio yma:

<https://foodcardiff.com/wp-content/uploads/2022/07/FINAL-Bwyd-Da-Caerdydd-Gwyl-Hydref-2022.pdf>

Gellir cyflwyno rhan o'r cais fel fideo.

Rydym yn derbyn ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg (mae gan y ffurflen ar-lein newidydd iaith).

Os oes angen unrhyw fformat arall neu unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk.

Sut y byddwn yn prosesu eich cais

Byddwch yn derbyn e-bost gennym yn cadarnhau bod eich cais wedi dod i law. Caiff penderfyniadau ar geisiadau eu cytuno gan Fwyd Caerdydd ac mae pob penderfyniad yn derfynol. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bellach. Yn anffodus, ni allwn roi adborth ar geisiadau aflwyddiannus am grant.

Telerau ac Amodau'r Grant

Darllenwch fwy yma: <https://foodcardiff.com/wp-content/uploads/2022/07/Grant-Terms-and-Conditions.pdf>

Cysylltu

Os oes gennych gwestiynau yn ymwneud â chyflwyno eich cais, anfonwch e-bost i foodsensewales@wales.nhs.uk

Grant Terms and Conditions

Please click here to read: